Diogelu Gwent
Gwent Safeguarding

# Briff 7 munud

# Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig




## 1. Cefndir

Comisiynwyd Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig gan Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Gwent yn unol â chanllawiau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar gyfer Adolygiadau Ymarfer Plant Amlasiantaethol. Mae'r adolygiad hwn yn ystyried amgylchiadau Plentyn E, plentyn gwryw a fu farw gwaetha'r modd yn 9 blwydd ac 11 mis oed.

Cyn ei enedigaeth yn 2011, mynegodd y fydwraig bryderon i'r Gwasanaethau Cymdeithasol oherwydd camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl gwael a cham-drin domestig y rhieni. Oherwydd digwyddiad rhwng y rhieni ar ôl genedigaeth Plentyn E, ac er mwyn ei ddiogelu, cytunwyd y byddai'r Plentyn a'i fam yn byw gyda'i fam-gu ar ochr ei fam. Tra'r oeddent yn byw gyda'i fam-gu ar ochr ei fam, dirywiodd y sefyllfa'n weddol gyflym a gadawodd y fam gartref y teulu. Yn fuan wedyn, rhoddwyd Gorchymyn Preswyliad gan y Llys, gan roi i'r fam-gu ar ochr ei fam gyfrifoldeb rhieni cyfartal a'r pŵer i benderfynu ble'r oedd y Plentyn yn byw.

## 2. Cyd-destun

Am gyfnod sylweddol (2017-2021), cafodd Plentyn E a'i deulu eu cynorthwyo gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ar Gynllun Gofal a Chymorth. Yn ystod y cyfnod hwn, cyflwynwyd nifer o atgyfeiriadau diogelu i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch Plentyn E a'i ymddygiad ymosodol, iaith amhriodol, ymddygiad rhywiol amhriodol, honiadau o gamdriniaeth gan aelodau'r teulu, a phryderon bod Plentyn E tu hwnt i reolaeth ei rieni.

Yn 2021, rhoddwyd enw Plentyn E ar y Gofrestr Amddiffyn Plant oherwydd pryderon cynyddol. Cynhaliwyd cyfarfod trothwy cyfreithiol ym mis Mehefin 2021 ond daethpwyd i'r casgliad y dylid rhoi amser i'r cynllun Amddiffyn Plentyn weithio, gan mai hwn oedd y cyfnod cofrestru cyntaf.
Mewn cyfarfod ym mis Tachwedd 2021, cytunwyd bod y risgiau'n cynyddu, ac y dylai'r mater symud at gyfarfod trothwy cyfreithiol. Ar 7 Tachwedd 2021, darganfuwyd Plentyn E wedi'i grogi yng nghartref y teulu. Gwaetha'r modd, bu farw yn yr ysbyty.

## 3. Dysgu a Gweithredoedd

**Colled / Galar:** Bu farw tad Plentyn E yn 2019. Cafodd cymorth ei gynnig yn yr ysgol; fodd bynnag, ni chafodd ei ddefnyddio ar yr adeg hon ac nid oedd eisiau manteisio ar y cynnig o gwnsela profedigaeth. Ymddengys nad aethpwyd yn ôl at hyn. Mae'n ymddangos nad yw effaith marwolaeth ei dad ar Blentyn E wedi'i hystyried yn llawn. Yn ogystal, roedd mam-gu wedi cael profedigaeth yn ddiweddar oherwydd marwolaeth ei chwaer. Yn anochel, cafodd hyn effaith ar ei llesiant hi a llesiant Plentyn E hefyd.

**Iechyd Meddwl ac ymdrechion y fam i wneud amdani ei hun:** Dair wythnos cyn marwolaeth Plentyn E, aethpwyd â'i fam i'r ysbyty dwywaith ar ôl iddi geisio gwneud amdani ei hun. Oherwydd hyn, gohiriwyd y cyswllt rhwng Plentyn E a'i fam. Roedd Plentyn E yn gwybod am ymdrechion ei fam i wneud amdani ei hun. Ymddengys na chafodd hyn ei drafod gydag ef, ac ymddengys nad oedd yr effaith y byddai hyn wedi'i chael arno wedi cael ei hystyried yn llawn.

## 4. Dysgu a Gweithredoedd

**Gor-optimistiaeth yng ngallu'r fam-gu i reoli a sicrhau newid:** Roedd mam Plentyn E yn hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol pan oedd yn blentyn, gyda'r pryderon ynghylch Plentyn E yn adlewyrchu'r ymddygiadau oedd yn amlwg yn ystod plentyndod ei fam. Pan gafodd mam Plentyn E blentyn arall, cafodd ei fam-gu ei hasesu a phenderfynwyd nad oedd yn gallu darparu gofal hirdymor i'r plentyn, felly cafodd ei fabwysiadu. Yn ogystal, roedd y fam-gu yn dioddef o iechyd corfforol gwael, ac roedd yn perthyn i'r grŵp 'agored i niwed yn glinigol' yn ystod camau cynnar y pandemig Covid-19.

**Cyfleoedd a fethwyd i siarad â Phlentyn E ar ei ben ei hun:** Nodwyd nifer o gyfleoedd a fethwyd i weld a siarad â Phlentyn E ar ei ben ei hun. Dylid gweld plant ar eu pen eu hunain er mwyn iddynt allu siarad am yr effaith mae'r amgylchiadau, a berodd y pryderon diogelu, yn ei chael arnynt.

## 5. Dysgu a Gweithredoedd

**Effaith Covid:** Roedd Plentyn E yn fwy agored i niwed oherwydd y pandemig Covid-19. Roedd yr ysgolion ar gau am gyfnod sylweddol yn ystod y pandemig, gyda'r disgwyl i rieni/gofalwyr addysgu eu plant gartref. Ni ystyriwyd bod Plentyn E yn gymwys am ddarpariaeth Hyb, a oedd wedi'i neilltuo ar gyfer plant ar y gofrestr amddiffyn plant a Phlant sy'n Derbyn Gofal. Yn ystod y cyfnodau canlynol pan gyfyngwyd ar symudiadau, gellid bod wedi defnyddio disgresiwn a rhoi lle yn yr Hyb i Blentyn E, gan roi seibiant i'r fam-gu a sicrhau bod Plentyn E yn cael ei weld yn rheolaidd gan weithwyr proffesiynol.

**Gwahaniaethau proffesiynol:** Cafwyd pryderon ynghylch y diffyg cynnydd o ran y Cynllun Gofal a Chymorth a'r pryderon amddiffyn plant a oedd yn dod i'r amlwg. Cafodd y pryderon hyn eu cyfathrebu rhwng y gweithwyr proffesiynol; fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth y cafodd y pryderon eu huwchgyfeirio.

## 6. Dysgu a Gweithredoedd

. **Systemau a Phrosesau:** Cafodd Plentyn E a'i deulu eu cefnogi ar Gynllun Gofal a Chymorth am bedair blynedd cyn rhoi ei enw ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Methwyd cyfleoedd i ystyried Plentyn E yn yr arena amddiffyn plant yn gynharach. Methwyd cyfleoedd i ddechrau'r broses Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (PLO) yn y cyfarfod trothwy cyfreithiol.

**Cydgysylltu asesiadau a chynlluniau'n ganolog**: Cafodd Plentyn E a'i deulu eu cefnogi ar Gynllun Gofal a Chymorth am bedair blynedd. Er gwaethaf y cyfathrebu rheolaidd rhwng gweithwyr proffesiynol, roedd diffyg cydgysylltu yn eu hasesiadau a'u cynlluniau yn y cyfnod cyn rhoi enw Plentyn E ar y Gofrestr Amddiffyn Plant. Roedd absenoldeb cynllun cynhwysfawr a chydgysylltiedig yn ei wneud yn anodd asesu a oedd unrhyw gynnydd yn cael ei wneud.

## 7. Argymhellion

1. Dylai'r Bwrdd Diogelu ystyried datblygu canllawiau ymarfer ar sail profiad byw y plentyn er mwyn cynorthwyo treiddgarwch ymarferwyr, i sicrhau y caiff llais y plentyn ei glywed yn weithredol.
2. Dylai Awdurdodau Lleol ystyried gwella gwaith goruchwylio gan reolwyr ac adolygu achosion lle cefnogir plant a theuluoedd gan Gynllun Gofal a Chymorth am gyfnodau estynedig.
3. Dylai'r Bwrdd Diogelu ystyried cryfhau a chodi ymwybyddiaeth ar draws yr holl asiantaethau am y Canllawiau Ymarfer Amlasiantaethol: Datrys Gwahaniaethau Proffesiynol.
4. Dylai'r Bwrdd Diogelu ystyried codi ymwybyddiaeth ar draws yr holl asiantaethau am y Canllawiau Cronoleg Amlasiantaethol er mwyn sicrhau y caiff cronolegau a grëwyd gan wahanol asiantaethau eu cyflwyno'n gydlynol, gan roi disgrifiad clir o ddigwyddiadau arwyddocaol ym mywydau'r plentyn/plant a'r teulu.